Croeso Nôl

Pleser oedd ail agor drysau'r ysgol ar ddydd Mercher yn dilyn 6 wythnos o wyliau. Hoffwn ymestyn croeso cynnes iawn i bawb, gan gynnwys disgyblion y Feithrin, y Dosbarth Derbyn a'r Hafan sydd wedi ymuno â'r ysgol yr wythnos hon! Croeso hefyd i'r staff newydd sydd wedi ymuno â'r tîm! Mae tymor prysur a chyffrous o'n blaenau ac edrychwn ymlaen yn fawr at gynnig ystod o brofiadau newydd a gwerthfawr i holl ddisgyblion Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

Welcome Back!

It was a pleasure to re-open our doors on a Wednesday following 6 weeks of holidays. I would like to extend a very warm welcome to everyone, including the Nursery, Reception and Yr Hafan pupils who have joined the school this week! I'd also like to welcome the new staff members that have joined the team! We have a busy and exciting term ahead of us and we very much look forward to offering a range of new and valuable experiences to all pupils our pupils at Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

Cwrdd â'r Athro (11/09/24)

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod 'Cwrdd â'r Athro' ar brynhawn dydd Mercher, 11/09/24, rhwng 3:30 a 4:00. Bydd hwn yn gyfle da i gwrdd ag athro newydd eich plentyn a dysgu mwy am weithdrefnau'r dosbarth. Bydd y sesiwn yn anffurfiol ac mi fydd croeso i chi symud o un dosbarth i'r llall os oes mwy nag un plentyn gyda chi yn yr ysgol. Bydd yr athrawon hefyd yn rhannu crynodeb o'r prif bwyntiau ar Class Dojo os nad ydych yn gallu mynychu'r cyfarfod.

Meet the Teacher (11/09/24)

I would like to invite you to a 'Meet the Teacher' meeting on Wednesday afternoon, 11/09/24, between 3:30 and 4:00. This will be a good opportunity to meet your child's new teacher and learn more about their class' routines for the year. It will be an informal session and you are welcome to move from one class to another if you happen to have more than one child at the school. The teachers will also share a summary of the key information on Class Dojo for those who are unable to attend.

colorfoto

Lluniau Unigol (13/09/24)

Bydd cwmni Colorfoto gyda ni ar ddydd Gwener, 13/09/24, er mwyn tynnu lluniau unigol o'r disgyblion. Cofiwch eich gwisg ysgol gorau! Bydd Colorfoto yn cymryd lluniau o ddisgyblion yr ysgol sydd â brodyr neu chwiorydd sydd ddim yn Ysgol Pwll Coch am 8:30 y.b.

Individual Photographs (13/09/24)

Colorfoto will be joining us on Friday, 13/09/24, in order to take individual photographs of the pupils. Remember your best school uniform! Colorfoto will be taking photographs of pupils who may have siblings that do not attend the school at 8:30 a.m.

https://learnwelsh.cymru/learning/course/244ee5d9-e748-ef11-991a-abd3a0abb585/

Gwersi Cymraeg AM DDIM!

Rydyn ni'n falch iawn i gyhoeddi ein bod wedi bod yn gweithio gyda Mudiad Meithrin er mwyn darparu gwersi Cymraeg AM DDIM i rieni, gwarcheidwaid a holl aelodau cymuned yr ysgol!

Mae croeso i unrhyw oedolyn sydd â diddordeb fynychu- does dim rhaid bod eich plant yn ifanc iawn. Byddwch yn dysgu llawer o iaith i'w ddefnyddio â phlant o bob oed. Mae croeso i chi ddod â babi neu blant ifanc gyda chi, bydd teganau a llyfrau ar gael i'w difyrru. Mae croeso hefyd i aelodau'r teulu estynedig!

Bydd y sesiynau'n anffurfiol ac yn addas i ddechreuwyr. Bydd yr arweinydd yn cyflwyno cyfarchion, sylfeini ynganu yn y Gymraeg a geirfa yn cynnwys lliwiau, rhifau, bwydydd, dillad, anifeiliaid a chanu caneuon a hwiangerddi.

Gofynnwn eich bod yn defnyddio'r ddolen uchod er mwyn cofrestru!

FREE Welsh Lessons!

We are very proud to announce that we have been working with Mudiad Meithrin to provide FREE Welsh lessons for parents, guardians and all members of the school community!

Any interested adult is welcome to attend - your children don't have to be very young. You will learn a lot of language suitable to use with children of all ages. You are welcome to bring a baby or toddler with you. Toys and books will be available to entertain them. Members of the extended family are also welcome!

The sessions will be informal and suitable for beginners. The leader will present greetings, Welsh pronunciations and vocabulary including colours, numbers, food, clothes, animals, songs and nursery rhymes.

Please use the link above to register!

Croeso gan Ffrindiau Pwll Coch

Edrych nôl, ac edrych ymlaen…

Yn gyntaf, diolch i bawb a wnaeth gyfrannu a gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwetha'; o'r disgo Calan Gaeaf i'r Ffair Nadolig; o dacluso a sortio'r dillad ail-law i goginio bwydydd blasus ar gyfer ein Gŵyl Fwyd Ryngwladol!

Mae cymuned Pwll Coch yn un arbennig iawn ac mae Ffrindiau Pwll Coch yn hynod o falch o allu dod â phawb ynghŷd i gymdeithasu, dathlu a chodi arian.

Felly, beth amdani – beth am i chi gefnogi rhai o'r ymgyrchoedd isod, neu beth am ymuno â ni am un o'r digwyddiadau a noder… braf byddai eich croesawu a gweld wynebau newydd!

- Medi 27ain, 2.15yp: Prynhawn Coffi yn yr Ysgol : Ymunwch â ni a chymued yr ysgol ar gyfer Prynhawn Coffi i godi arian i Macmillan. Os y bydd hi'n braf, yna y nod yw cynnal y digwyddiad ar yr iard fach yng nghanol yr ysgol fel bod modd i chi weld yr holl waith caled y mae Steve Morgan (rhiant ac aelod o Ffrindiau Pwll Coch) a rhieni eraill wedi'i gyflawni drwy gefnogaeth Ffrindiau Pwll Coch. Dewch i brif fynedfa'r ysgol!

- Cyfarfod Blynyddol Ffrindiau Pwll Coch: Dewch i glywed mwy am ein gwaith fel Cymdeithas Rhieni ac Athrawon – 9 Hydref: 7.30yh: yn yr Ysgol. Dewch i brif fynedfa'r ysgol. Gellir ymuno a'r cyfarfod ac â Ffrindiau Pwll Coch – criw eang o wirfoddolwyr a chefnogwyr neu os oes diddordeb gyda chi i ymuno â'r pwyllgor arweiniol drwy fod yn drysorydd, gadeirydd, is-gadeirydd neu ysgrifennydd, gellir datgan diddordeb a dysgu mwy drwy gysylltu gyda Non – nonstevens2015@yahoo.co.uk.

- ASDA Cashpot for Schools – wele'r hysbyesbion gan ASDA; ond yn syml iawn, lawlwythwch yr ap ASDA REWARDS a deiwswch Ysgol Pwll Coch fel eich dewis elusen/ysgol – byddwn yn derbyn ££ wrth i chi wneud ac wrth ichi wario yn ASDA!

- Digwyddiad Bollywood Pwll Coch -– bydd rhai rhieni yn trefnu digwyddiad Bollywood ar gyfer tymor yr Hydref. Os hoffech gyfrannu syniadau, bwyd, neu gymryd rhan a helpu gyda'r trefnu, cysylltwch gyda nonstevens2015@yahoo.co.uk neu 07983318740. Diolch.

A Welcome from Ffrindiau Pwll Coch (PTA)

Looking back, and looking forward…

Firstly, thank you to everyone who contributed and worked hard over the last year; from the Halloween disco to the Christmas Fair; from tidying and sorting the used clothes to cooking delicious foods at our International Food Festival!

The Pwll Coch community is a very special one and Ffrindiau Pwll Coch are extremely proud to be able to bring everyone together to socialise, celebrate and raise money.

So, how about it - how about supporting some of the campaigns below, or why not join us for one of the events... it would be wonderful to welcome you and see new faces!

- September 27th, 2.15pm: Coffee Afternoon in the School: Join us and the school community for a Coffee Afternoon to raise money for Macmillan. If the weather is fine, the aim is to hold the event in the courtyard in the middle of the school so that you can see all the hard work that Steve Morgan (parent and member of the PTA) and other parents have done with the support of Ffrindiau Pwll Coch. Come to the school's main entrance!

- Ffrindiau Pwll Coch's Annual Meeting: Come and hear more about our work as a Parent Teacher Association - 9 October: 7.30pm: at the School. Come to the school's main entrance. You can join the meeting and Ffrindiau Pwll Coch - a group of volunteers and supporters, or if you are interested in joining the main committee by being treasurer, chairperson, vice-chair or secretary, you can declare interest and learn more by contacting Non – nonstevens2015@yahoo.co.uk.

- ASDA Cashpot for Schools - see the adverts from ASDA; but simply, download the ASDA REWARDS app and choose Ysgol Pwll Coch as your choice of charity/school - we'll receive ££ when you do and when you spend at ASDA!

- Pwll Coch Bollywood event - some parents will be organising a Bollywood event for the Autumn term. If you would like to contribute ideas, food, or take part and help with the organisation, please contact nonstevens2015@yahoo.co.uk or 07983318740. Diolch.

Dyddiadau HMS 2024-25 INSET Dates
Dydd Mercher / Wednesday 25/09/24
Dydd Llun / Monday 06/01/25
Dydd Llun / Monday 03/03/25
Dydd Llun / Monday 21/07/25
Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2024-25, cliciwch yma! For a list of 2024-25 term dates, click here!

Teithiau Preswyl 2024-25 Residential Trips
Blwyddyn 5 – Abercraf 18/09/24-20/09/24
Blwyddyn 6 – Llangrannog 21/10/24-25/10/24
Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay 16/01/25-17/01/25

Clybiau Allgyrsiol

Byddwn yn cynnig amrywiaeth o glybiau allgyrsiol unwaith eto eleni, gyda'r rhan fwyaf o glybiau yn dechrau ar w/d 16/09/24. Byddwn yn rhannu amserlen newydd gyda chi wythnos nesaf.

Extra-Curricular Clubs

We will be offering a range of extra-curricular clubs once again this year, with the majority beginning on w/c 16/09/24. We will be sharing the new timetable with you next week.

Dyddiadau Allweddol - Tymor yr Hydref 2024

Mae'n bleser cyflwyno trosolwg o ddigwyddiadau'r tymor i chi. Ein gobaith yw bod y rhestr yma'n rhoi blaen-rhybudd i chi o'r ystod o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y tymor o'm blaenau. Mae'n debygol iawn y bydd digwyddiadau sy'n ychwanegol i'r rhain – cadwch lygad ar ein cylchlythyr pythefnosol! Byddwn yn eich hysbysu ar Class Dojo os oes unrhyw newidiadau annisgwyl i'r digwyddiadau isod.

Autumn Term 2024 – Key Dates

It is a pleasure to present an overview of this term's events with you. It is our hope that this list gives you enough notice of the range of events that have been planned for the Autumn term. It is very likely that we will be adding additional events therefore please keep an eye on our fortnightly newsletter! We will notify you on Class Dojo if there are any unexpected changes to the events listed below.

Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Teulu mawr ŷm ni i gyd!

Cylchlythyr Pythefnosol – Fortnightly Newsletter

06/09/2024

Diwrnodau di-wisg ysgol / Non-uniform days	Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement	Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events	Hyfforddiant mewn Swydd/ INSET Dates
15/10/24 Lliwiau Cymru Diwrnod Shwmae/ Su'mae Welsh Colours	**11/09/24** Noson Cwrdd â'r Athro 3:30-4:00 Meet the Teacher	**13/09/24** Ffotograffau Unigol Colorfoto Individual Photographs	**25/09/24**
18/10/24 Gwisgwch goch i hiliaeth Wear Red (Show Racism the Red Card)	**18/09/24** Gwersi Cymraeg yn dechrau 2:00-3:00 Welsh lessons begin	**17/09/24** Cyngherdd WNO Bl3 a Bl4 WNO Concert Year 3 & Year 4	
25/10/24 Diwrnod ola'r hanner tymor Last day of the half term	**27/09/24** Coffi Macmillan 2:15 Macmillan Coffee	**18/09/24-20/09/24** Taith Preswyl Bl5 Year 5 Residential	
11/11/24 Gwisgwch sanau od! Wear odd socks!	**08/10/24** Noson Agored Glantaf (Rhieni Bl6) 17:00 Glantaf Open Evening (Year 6 Parents)	**27/09/24** Diwrnod STEM Glantaf Bl6 Glantaf STEM Day Year 6	
15/11/24 Plant mewn Angen Children in Need	**15/10/24** Cwis Shwmae i rieni! 9:00 Shwmae Quiz for parents	**01/10/24** Pêl-droed bechgyn 5&6 Year 5 & Year 6 Boys Football	
12/12/24 Diwrnod siwmperi Nadolig	**11/11/24-14/11/24** Nosweithiau Rhieni Parents' Evening	**01/10/24** Eisteddfod y Cymoedd	

Christmas jumper day		Valleys Eisteddfod	
20/12/24 Diwrnod ola'r tymor Last day of term	**04/12/24** Cipolwg Cynnydd 3:30-4:30 Progress Pit-stop meetings	**09/10/24** Cerddorfa Glantaf Bl5 & Bl6 Glantaf Orchestra Year 5 & Year 6	
		11/10/24 Jambori Bl 3 & 4 Year 3 & 4 Jamboree	
		21/10/24-25/10/24 Taith Preswyl Bl6 Llangrannog Year 6 Residential Llangrannog	
		05/11/24 Pêl-droed cymysg Bl3 & Bl4 Mixed Football Year 3 & Year 4	
		05/11/24 Pêl-droed merched Bl5 & Bl6 Girls Football Year 3 & Year 4	
		08/11/24 Cogurdd Bl4-Bl6 Year 4 – Year 6 Cogurdd	
		11/11/24 Chwistrelliadau Ffliw	
		19/11/24 Pantomeim Bl3 – Bl6	

		Year 3 – Year 6 Pantomime	
		06/12/24 Pêl-rwyd Bl5 & Bl6 Year 5 & Year 6 Netball